


# **St David's College**
# Update




## Updated Parent Guide

We have recently updated our Parent Guide – a booklet containing the key information you should need throughout your child's time with us.

*Click here to read the Parent Guide 2024-25*

Remember, the college uses Instagram, LinkedIn and BlueSky, so follow and engage to keep up with what's going on around College.

## Could you offer work experience?

Work Experience and Work Shadowing opportunities give learners invaluable insight into professional environments, helping them build skills, make informed decisions, start networking, and enhance their CVs.

If you, or your workplace, can offer work experience or shadowing opportunities during college holidays, we'd love to hear from you. Get in touch by emailing Launchpad@stdavidscollege.ac.uk

## Summer Re-sits – Deadline

The deadline for applying and paying for re-sits and additional exams for the Summer is Monday 3rd February.

Entries received after this date can incur late fees. Students can access the entry form from a QR code in LRC and on the door of M09.

## Careers and Employment Support is Available

We want to ensure that every learner feels confident and well-prepared for their next steps – and taking the support available is a key part of that.

Every learner has access to expert advice on career preparation and progress from St Davids - **at the Launchpad**.

The Launchpad provides support for learners regarding university, apprenticeships, employment, self-employment, work experience and gap years.

Learners can make appointments, drop in, or email Launchpad@stdavidscollege.ac.uk to access support.

Learners, but also parents and carers can access support through Careers Wales. Visit the Careers Wales website to find out about:

- **Supporting Your Child in Sixth Form or College;**
- **Helping Your Child Make Career Decisions;**
- **Booking an Appointment.**

## Girls Dominating Esports Once Again

Congratulations to the esports girls' team who won their THIRD consecutive WIE Valorant Cup by beating Capital City College London. They are still undefeated British Champions and have not lost a game in their entire time at St David's and in competitive esports.

Winning is becoming a habit for these young girls, as they can now add a third cup to the wall of the esports classroom.

## Well done, Grace!

A huge congratulations to Grace Oluwefemi who has been successfully elected into the Welsh Youth Parliament.

One of her first tasks is to report to Parliament regarding the issues that young people face living in Wales. So, we're encouraging learners to head to Linc, where there is a form to tell Grace the persective of others young people, to share with Youth Parliament.

## Well done, Abel!

Well done to Abel Mwenera who represented Wales in U19's Welsh Colleges against Australia last week.

The score ended 2-1 with a Wales victory, and Abel played 85mins with vital contributions in defence. It is great to see an academy player representing Wales, and playing an important part in their success.

## Looking Ahead to Culture Day

Those in upper sixth will remember just how big a celebration Culture Day is, and those in lower sixth should be excited for a day where we all get to show off our heritage, teach others and celebrate.

It's a day that brings us all together; a reminder of how different, unique and together we all are as a community.

We are looking for stall holders to represent countries – so we're currently encouraging learners who wants to hold a stall for their country or culture, to contact Mr Todd or Mr Hazel.

# Announcements

**Food Pantry** A reminder that we have a food pantry available to learners who may need additional support with food and toiletries. Please go to the room opposite the Launchpad, where you can discretely collect a range of items to take home with you.

## Important Dates

| | |
|---|---|
| 30th January | **INSET Day** |
| 19th February | **Parents Evening (Lower Sixth)** |
| 20Th February | **Culture Day** |
| 21st February | **Last day of teaching before Half Term** |




# Diweddariad **Coleg Dewi Sant**

## Canllaw i Rieni wedi'i Ddiweddaru

Rydym wedi diweddaru ein Canllaw i Rieni yn ddiweddar – llyfryn sy'n cynnwys y wybodaeth allweddol bydd ei hangen arnoch trwy gydol amser eich plentyn gyda ni.

*Cliciwch yma i ddarllen Canllaw i Rieni 2024-25*

Cofiwch, mae'r coleg yn defnyddio Instagram, LinkedIn a BlueSky, felly dilynwch ni i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sy'n digwydd yn y Coleg.

## A allech chi gynnig profiad gwaith?

Mae cyfleoedd profiad gwaith a chysgodi gwaith yn rhoi cipolwg amhrisiadwy i amgylcheddau proffesiynol i ddysgwyr, gan eu helpu i feithrin sgiliau, gwneud penderfyniadau gwybodus, dechrau rhwydweithio, ac ychwanegu at eu CV.

Os gallwch chi, neu'ch gweithle, gynnig cyfleoedd profiad gwaith neu gysgodi yn ystod gwyliau'r coleg, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Cysylltwch â ni drwy e-bostio Launchpad@stdavidscollege.ac.uk

## Ailsefyll yn yr Haf – Dyddiad Cau

Y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais a thalu ar gyfer ailsefyll arholiadau ac arholiadau ychwanegol yn yr haf yw Dydd Llun 3 Chwefror.

Mae'n bosib y bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn destun ffioedd hwyr. Gall myfyrwyr gael mynediad at y ffurflen gais o god QR yn yr LRC ac ar ddrws M09.

## Mae Cymorth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ar Gael

Rydym eisiau sicrhau bod pob dysgwr yn teimlo'n hyderus ac yn barod ar gyfer eu camau nesaf – ac mae manteisio ar y cymorth sydd ar gael yn rhan allweddol o hynny.

Mae gan bob dysgwr fynediad at gyngor arbenigol ar baratoi a datblygu gyrfa gan Goleg Dewi Sant - **yn y Launchpad**.

Mae'r Launchpad yn darparu cymorth i ddysgwyr o ran prifysgolion, prentisiaethau, cyflogaeth, hunangyflogaeth, profiad gwaith a blynyddoedd i ffwrdd.

Gall dysgwyr wneud apwyntiadau, galw heibio, neu e-bostio Launchpad@stdavidscollege.ac.uk i gael mynediad at gymorth.

Gall dysgwyr, a rhieni a gofalwyr hefyd, gael mynediad at gymorth trwy Gyrfa Cymru. Ewch i wefan Gyrfa Cymru i ddysgu am:

- **Cefnogi'ch Plentyn yn Nosbarth Chwech neu'r Coleg;**
- **Helpu'ch Plentyn i Wneud Penderfyniadau Gyrfa;**
- **Gwneud Apwyntiad.**

## Y Merched yn Rhagori mewn eChwaraeon Unwaith Eto

Llongyfarchiadau i dîm eChwaraeon y merched a enillodd eu TRYDEDD fuddugoliaeth Cwpan Valorant WIE yn olynol trwy guro Capital City College London. Nhw yw Pencampwyr Prydain heb eu trechu o hyd ac nid ydynt wedi colli'r un gêm trwy gydol eu hamser yng Ngholeg Dewi Sant ac mewn eChwaraeon cystadleuol.

Mae ennill yn arferiad i'r merched ifanc hyn erbyn hyn, a gallant ychwanegu trydydd cwpan at wall yr ystafell ddosbarth eChwaraeon.

## Da iawn, Grace!

Llongyfarchiadau mawr i Grace Oluwefemi sydd wedi cael ei hethol yn llwyddiannus i Senedd Ieuenctid Cymru.

Un o'i thasgau cyntaf yw adrodd i'r Senedd o ran y materion y mae pobl ifanc sy'n byw yng Nghymru yn eu hwynebu. Felly, rydym yn annog dysgwyr i fynd i Linc, lle mae ffurflen i roi safbwyntiau pobl ifanc eraill i Grace, er mwyn iddi hi eu rhannu â'r Senedd Ieuenctid.

## Da iawn, Abel!

Da iawn i Abel Mwenera a gynrychiolodd Cymru yng Ngholegau Cymru dan 19 yn erbyn Awstralia wythnos ddiwethaf.

Gorffennodd y sgôr 2-1 gyda buddugoliaeth i Gymru, a chwaraeodd Abel 85 munud gyda chyfraniadau hanfodol i'r amddiffyniad. Mae'n wych gweld chwaraewr yr academi yn cynrychioli Cymru, ac yn chwarae rhan allweddol yn eu llwyddiant.

## Edrych Ymlaen at Ddiwrnod Diwylliant

Bydd y rhai yn y chweched uchaf yn cofio pa mor fawr yw dathliad Diwrnod Diwylliant, a dylai'r rhai yn y chweched isaf fod yn gyffrous am ddiwrnod lle mae pob un ohonom yn cael cyfle i arddangos ein treftadaeth, addysgu eraill a dathlu.

Mae'n ddiwrnod sy'n dod â ni i gyd at ein gilydd ac yn ein hatgoffa o ba mor wahanol, unigryw a chydgysylltiedig ydym ni fel cymuned.

Rydym yn chwilio am stondinwyr i gynrychioli gwledydd – felly rydym yn annog dysgwyr sydd eisiau cynnal stondin ar gyfer eu gwlad neu ddiwylliant i gysylltu â Mr Todd neu Mr Hazel.

# Cyhoeddiadau

**Pantri Bwyd** Nodyn i'ch atgoffa bod gennym ni pantri bwyd ar gael i ddysgwyr sydd efallai angen cymorth ychwanegol gyda bwyd ac eitemau ymolchi. Ewch i'r ystafell gyferbyn â'r Launchpad, lle gallwch chi gasglu amrywiaeth o eitemau yn gyfrinachol i fynd adref gyda chi.

## Dyddiadau Pwysig

| | |
|---|---|
| 30 Ionawr | **Diwrnod HMS** |
| 19 Chwefror | **Noson Rhieni (Chweched Isaf)** |
| 20 Chwefror | **Diwrnod Diwylliant** |
| 21 Chwefror | **Diwrnod olaf addysgu cyn Hanner Tymor** |